**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Chwefror 8fed 2023**

**Presennol**

Cyng. S.Roberts, D.Morris, C.Edwards, Gavin Jones.

**Ymddiheuriad** - Cyng Griffiths,Cyng Dixon,Cyng S.Jones

**Cofnodion Ionawr 2023.**

Cynnigodd Cyng D. Morris fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S. Roberts.

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod**.

Dim.

**Materion yn codi.**

**Giat Green Lane**- Ar ol holl drafod rhwng sawl asiantaeth yn y misoedd diwethaf nid yw'r mater hwn wedi ei ddatrys.

Bydd y clerc eto'n cysylltu ar asiantaethau er mwyn canfod y sefyllfa bresennol.

**Ffordd Ty Cerrig**-Mae Cyng Griffiths wedi derbyn gwybodaeth fod sustem penodi gwaith" ardal ni" ddim yn gweithio a mae yna ddiffyg gwybodaeth ynghylch lleoliad a'r math o waith sydd angen ei wneud.

Mae'r mater yma wedi bod ar y gweill ers dros 3 mis sy'n ychwanegu hygrededd i'r wybodaeth uchod.

**Ffordd ger blwch post yn Hermon-** Mae Cyng Griffiths wedi cymerydd llun o'r ffordd a'i yrru i Cyngor Gwynedd.

**Graeanu ffyrdd cefn gwlad**- Bydd y cyngor ond yn graeanu ffyrdd cefn gwlad e.e Hermon/Abergeirw yng ngolau dydd rhwng 8yb a 1.30yp.

**Maesgwm –** Bydd gwaith torri coed yn cael ei gwblhau gan asiant "trunk roads" yn yr wythnosau nesaf.

**Beech Road**- Mae'r cyngor yn trefnu gwaith clirio draeniau ac ail agor ffosydd yn yr ardal yma.

**Gwter rhwng Gelli Goch/Ffridd Bryn Coch**-Mae'r cyngor Sir wedi clirio'r gwter.

**Cyngorhydd Sir-** Darllenodd y clerc adroddiad cynhwysfawr a gyflwynwyd gan Cyng Griffiths am nifer o faterion a digwyddiadau yn ymwneud ar ardal.Mae llawer o'r materion wedi'u cofnodi ar y ddogfen hon.

**Cyfarfod cwmni Magnox yn Trawsfynydd**- Mae aelodau'r cyngor wedi cael gwahoddiad i gyfarfod i drafod y cais cynllun am 4yh ar Chwerfor 28ain. Y rhai sydd am fynychu i gysylltu a'r clerc.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc: Ionawr 2023

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £4312.68 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Ad daliad TAW | £289.99 |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £8.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £4494.67 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant  misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Awdit allanol- mae'r cyngor am ofyn i adran archwilio Cyngor Gwynedd cwblhau'r awdit mewnol 2022-23.

**Unrhyw fater arall**.

Dim